# Caban Y Faenol CYF

## Ffioedd

Mae'r Clwb yn deall y gall cost gofal plant cofrestredig ymddangos yn ddrud i riant/gofalwr. Fodd bynnag, nid yw darparu gwasanaeth diogel ac ysgogol o ansawdd uchel i blant yn rhad ac er mwyn sicrhau safonau uchel parhaus a chynaliadwyedd y Clwb, rhaid iddo ofyn i rieni/gofalwyr barchu ei bolisi o ran talu ffioedd.

- Bydd lefel y ffioedd yn cael ei osod gan y Pwyllgor Rheoli a'i adolygu'n flynyddol yng ngoleuni sefyllfa ariannol y Clwb, ei gynlluniau strategol ar gyfer y dyfodol ac unrhyw ystyriaethau economaidd neu gymdeithasol ehangach eraill a ystyrir yn berthnasol.

- Bydd y Pwyllgor Rheoli yn hysbysu'r rhiant/gofalwr o newid yn lefel y ffioedd o leiaf fis cyn i'r newid gael ei wneud.

- Bydd y Rheolwr neu aelod o staff yn anfon anfoneb at y rhiant/gofalwr yn fisol. Bydd yr anfoneb hon yn cynnwys amcangyfrif o ffioedd ar gyfer y mis i ddod ac unrhyw addasiad ynghyd â ffioedd clwb brecwast neu ffioedd tebyg, sy'n berthnasol i'r mis blaenorol. Mae'r anfoneb yn ddyledus o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb.

- Os na chaiff yr anfoneb ei thalu o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb, bydd y Rheolwr neu aelod o staff yn hysbysu'r rhiant/gofalwr ac yn gofyn am daliad ar unwaith neu i siarad â'r Rheolwr. Cyfeiriwch at y Polisi Talu.

- Os nad yw'r Rheolwr wedi clywed gan y rhiant neu ofalwr ac os nad yw taliad wedi ei wneud o fewn y terfynau amser a osodwyd, mae'r Clwb yn cadw'r hawl i atal y gwasanaeth gofal plant hyd nes y gwneir taliad. Mae posibilrwydd y bydd lle'r plentyn yn cael ei fforffedu.

- Gellir trafod trefniadau talu unigol rhesymol rhwng y Rheolwr a rhieni/gofalwyr.

- Bydd y Clwb yn cydymdeimlo â cheisiadau am daliadau dyddiol. Dylai rhieni/gofalwyr sy'n dymuno trafod hyn neu unrhyw newid arall i'r polisi ffioedd safonol drefnu cyfarfod gyda'r Rheolwr cyn gynted â phosibl.

- Anogir rhieni/gofalwyr i siarad â'r Rheolwr os oes ganddynt unrhyw ymholiad am y polisi ffioedd, neu os ydynt, am unrhyw reswm, yn debygol o gael anhawster i

wneud taliad ar amser. Cynghorir rhieni/gofalwyr yn gryf i drefnu cyfarfod cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi peryglu lle eu plentyn yn y Clwb.

- Mae'r Clwb yn derbyn taliad gydag arian parod, siec, BACS neu drwy dalebau gofal plant. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am dalebau gofal plant, cysylltwch â'r Rheolwr i drafod hyn.

- Os bydd eich plentyn i ffwrdd ar wyliau a bod 4 wythnos o rybudd yn cael ei roi, yna codir hanner y ffi am y sesiynau er mwyn cadw lle eich plentyn.